Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 42 Calan 2018



Annwyl Gyd-aelodau,

Wrth fynd am dro'r wythnos hon, yr wythnos gyntaf ym mis Rhagfyr, gwelsom ŵr ar ei liniau efo fforch fach yn ei law.

'Wedi plannu tiwlips oeddwn i yn yr hydref. Ond does dim golwg ohonyn nhw yn unlle!'

Rhyfedd yw'r reddf yna sydd ynom, hyd yn oed yng nghanol y gaeaf i fod wrthi'n paratoi ar gyfer tymor newydd ac i ddechrau chwilio am arwyddion cynnar o fywyd newydd. Efallai y bydd rhai ohonom sy'n casáu'r tywyllwch a'r oerfel yn llai uchelgeisiol na hynny ac yn fodlon hymio'n betrus y bydd pethau'n gwella pan ddaw'r gwanwyn!

Ond i'r garddwr gobeithiol a'r person sy'n dyheu am *anti-freeze* yn ei wythiennau, edrych ymlaen yr ydym at y gwanwyn a'i fywyd.

Pan drown at fywyd ein heglwysi, chwilio yr ydym am arwyddion bod yr hyn sy'n cael ei blannu yn dechrau egino yn ein plith.

Clywsom ddigon o broffwydi secwlar yn dawnsio eu Haka bygythiol ac yn darogan diwedd tystiolaeth Gristnogol yng Nghymru.

Ar ryw olwg mae gan y darogan a'r caneuon gwae sail ystadegol. Nid ddoe dechreuodd y cilio na'r dirywiad. Wedi dros ganrif o ddirywiad ystadegol yn ein henwadau, diau, yn y tymor byr, y byddwn yn gweld rhagor o gapeli'n cau. A bydd colli'r gymdeithas addolgar yn dwyn tristwch yn ei sgil a rhagor o dystiolaeth i broffwydi ein gwae!

Ond nid gan ystadegau mae'r dyfodol.

Fe gredwn ni fod dyfodol yr Eglwys yn llaw Iesu Grist. Fe gredwn ar sail addewidion Duw; ar sail aberth Iesu Grist ar Galfaria, ei atgyfodiad a thywalltiad yr Ysbryd Glân; ar sail ei addewid i adnewyddu'r greadigaeth gyfan fel bod nef newydd a daear newydd lle mae cyfiawnder yn cartrefu, nad yn yr hyn a welwn gyda'n llygaid, nad gan yr hyn a allwn fesur gyda'n hystadegau y mae'r dyfodol.

Dywedodd Iesu, 'Myfi yw'r Winwydden: chwi yw'r canghennau. Y mae'r sawl sydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau, yn dwyn llawer o ffrwyth, oherwydd ar wahân i mi ni allwch chi wneud dim.' (Ioan 15:5)

Dyma grynhoi cyfrinach bywyd eglwys Iesu Grist i'r dyfodol a 'dwyn ffrwyth lawer'.

Sylweddolwn o'r newydd nad ein henwad ni, ein capel ni, ein harferion ni sydd â'r addewid am oroesi o'i phlaid. Yr Arglwydd Iesu Grist yw'r winwydden hardd a ffrwythlon o benodiad Duw.

'Aros ynof fi' - glynu wrth yr Arglwydd Iesu, ei ddysgeidiaeth, ei efengyl a ddatguddiwyd yn yr Ysgrythurau sy'n ein himpio trwy ffydd ac ufudd-dod i'r wir winwydden. Ein llawenydd o'r tu arall yw canfod ei fod ef, ei fywyd a'i nerth yn 'aros' ynom ni.

Yn drydydd mae'r sylweddoliad 'ar wahân i mi ni allwch wneud dim ...' yn ein sobri a'n llonni yr un pryd. Mae'n ein sobri wrth i ni sylweddoli y bydd ein 'capelydda ni' lle mae'n disgwyliadau ni a'n harferion ni yn fwyfwy amherthnasol i genedlaethau sy'n codi. Ond lle mae bywyd y Crist yn dechrau llifo drwom o'r newydd wrth i ni aros ynddo, mae Bywyd, gobaith, nerth newydd, bywyd gwanwyn tragwyddol yn sicr o ddilyn.

Gweddïwn, bob un ohonom, am gael bod â rhan ym mywyd y Crist fel y medrwn ddechrau dychmygu'r dyfodol llewyrchus mae'r Arglwydd wedi ei addo i'w Eglwys.

*Gweddi*

Arglwydd, ein dyhead yw cael bod ynot ti. Caniatâ i ni fel unigolion ac fel cynulleidfaoedd brofi bod y bywyd anorchfygol sydd ynot ti yn dechrau llifo yn ein plith o'r newydd. Caniatâ i ni'r hyfryd fraint o gael aros ynot ti a thithau ynom ni. Ac wrth i'r 'newydd' ymddangos caniatâ i ni ei groesawu, llawenhau ynddo a gorfoleddu ynot ti.
Trwy Iesu Grist y gofynnwn hyn. Amen.

*Watcyn James*

## Gwasanaeth Sefydlu'r Parchedig Ddr R Watcyn James

Nos Wener, Hydref 13eg, cafwyd cyfarfod bywiog yng Nhapel y Garn pan ddaeth aelodau Gofalaeth y Garn, sef eglwysi'r Babell, y Garn, Madog, Nasareth, Pen-llwyn, Rehoboth a Seion, ynghyd i sefydlu'r Parch Watcyn James yn Weinidog arnynt. Braf oedd cael croesawu aelodau o eglwys Burry Green ar Benrhyn Gŵyr, lle bu Dr James yn cynorthwyo gyda gwaith yr eglwys cyn derbyn yr alwad i'r Garn.

Mrs Marian Beech Hughes, Llywydd Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro, oedd yn llywyddu.

Cyflwynwyd yr emyn cyntaf gan y Parch Elwyn Pryse, cyn-Weinidog ar yr Ofalaeth; darllenwyd o'r Ysgrythur gan Mrs Ina Williams, Capel Seion ac offrymwyd gweddi gan y Parch Eifion Roberts, Capel y Morfa. Yna cafwyd cyfnod o addoliad dan arweiniad gan y Parch Ddr Andras Iago, mab y gweinidog newydd a gweinidog Gofalaeth Bro Dinbych.

Yn dilyn y ddefod sefydlu, offrymwyd gweddi dros y Gweinidog gan y Parch Iain Hodgins, gweinidog Burry Green. Croesawyd Dr James a Mrs Lowri James ar ran yr Ofalaeth gan yr Arglwydd Elystan Morgan; offrymodd y Parch Wyn Morris, y cyn-Weinidog, weddi ar ran eglwysi'r Ofalaeth; a chyflwynwyd yr emyn olaf gan Mr Bob Williams, Cadeirydd Pwyllgor yr Ofalaeth.

Gan y Parch Athro Densil Morgan, Llanbedr Pont Steffan, y cafwyd y siars i'r eglwysi – siars daer ac eneiniedig i ni i gyd gadw'n ffydd a'n gobaith a chydweithio tuag at gynnydd a ffyniant.

Ymatebodd y Gweinidog drwy ddiolch i bawb am y croeso a'r dymuniadau da iddo ef a Lowri, a chan edrych ymlaen yn hyderus tuag at hyrwyddo a chyflawni gwaith Teyrnas Crist yn y fro.

Brwd a chynnes fu'r gymdeithas dros baneidiau yn y Festri wedyn.

*Llinos Dafis*



Y rhai a gymerodd ran yng ngwasanaeth sefydlu'r Parch Ddr R Watcyn James




Y Parch Ddr Andras Iago yn arwain yr addoliad yng ngwasanaeth sefydlu ei dad

# Tudalen y Plant

Yn fuan ar ôl iddo gael ei eni, roedd yn rhaid i'r baban Iesu fynd ar daith bell gyda'i rieni. Chwiliwch am yr hanes yn y Beibl (Efengyl Mathew) ac yna ysgrifennwch y llythrennau coll:

Dywedodd angel wrth J _ _ _ _ _ nad oedd hi'n ddiogel iddyn nhw aros ym M _ _ _ _ _ _ _ _ _. Felly, aeth â M _ _ _ a'r baban _ _ _ _ i'r A _ _ _ _.

Pa lwybr fydd yn eu harwain yn ddiogel i wlad arall?



Anfonwch y gwaith at y Gweinidog, drwy law eich athro / athrawes ysgol Sul, os dymunwch, erbyn **31 Ionawr.** Bydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het.

Llongyfarchiadau i
Elen Jenkins,
Ysgol Sul Pen-llwyn,
enillydd tasg y rhifyn diwethaf.

***Manylion Cyswllt y Gweinidog***
***Y Parchedig Ddr R. Watcyn James,***
***Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth, SY23 3LZ***
***01970 880615***
***ebost: watcynalowri@gmail.com***

### *Cyhoeddiadau'r Ofalaeth &c*

| | |
|---|---|
| 31 Rhagfyr | Oedfa gymun i'r ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog<br>Capel y Garn am 10 o'r gloch |
| 15 Ionawr | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth<br>Festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 16 Ionawr | Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro<br>Capel y Morfa, Aberystwyth, am 1.30 o'r gloch |
| 28 Ionawr | Oedfa'r ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog<br>Capel y Garn am 10 o'r gloch |
| 30 Mawrth | Myfyrdod Gwener y Groglith<br>dan arweiniad y Gweinidog<br>Thema: 'I ddweud yn iawn amdano'<br>Capel Seion am 10 o'r gloch |
| 1 Ebrill | Oedfa Undebol i Eglwysi'r Ofalaeth<br>ar fore Sul y Pasg<br>Capel Noddfa, Bow Street, am 10 o'r gloch |
| Gweler hefyd: | www.capelygarn.org; Twitter: @capelygarn |

Mae ysgolion Sul yn cwrdd yng Nghapel Seion, yng Nghapel Pen-llwyn, Capel Bangor, ac Ysgol Sul Unedig Bow Street yng Nghapel y Garn. Croeso cynnes i blant o bob oed – holwch y Gweinidog am fanylion

# CIC



Bu i ni gyfeirio at ymadawiad Zoe Glynne Jones fel Swyddog Plant ac Ieuenctid Menter Gobaith yn rhifyn yr haf o 'Gair o'r Garn' ac am Wasanaeth Sul y Fenter yn y rhifyn diwethaf, a datganwyd gwerthfawrogiad i Derfel Reynolds am ei gyfraniad gwerthfawr yn cefnogi gweithgaredd CIC (Clwb Ieuenctid Cristnogol).

Yng nghyfarfod Blynyddol CIC, a gynhaliwyd ar 11 Hydref, cafodd aelodau'r Pwyllgor gyfle i dalu teyrnged i Zoe a Derfel am eu hymroddiad a'u gweithgarwch gydag ieuenctid y fro ac am y modd yr oeddynt yn medru cyfathrebu mor effeithiol gyda hwy am nifer helaeth o flynyddoedd. Cyflwynwyd rhodd iddynt gan Rhian Nelmes, Cadeirydd y Pwyllgor. Dymunir yn dda iddynt i'r dyfodol: Zoe gyda'i hastudiaethau ym Mhrifysgol Aberystwyth a Derfel wrth ei waith ym Meithrinfa Plant Plas Gogerddan.

Gan fod swydd Swyddog Plant ac Ieuenctid Menter Gobaith dan ystyriaeth ar hyn o bryd, rhoddir seibiant i weithgarwch CIC am y tro.

*Dewi G Hughes*

# Gwreiddiau

Yn ystod yr hydref dechreuwyd cynnal grŵp Gwreiddiau. Cyfarfod anffurfiol ydyw sy'n dod ynghyd, fel arfer, ar fore dydd Iau yng Nghapel y Garn. Yr ydym yn cyfarfod am baned a chlonc tua 10:15 ac yn gorffen ein trafodaethau yn brydlon am 11:30.



Mae'n cyfarfod yn gyfle i rannu profiad, i ddeall ein profiadau ac i adnabod 'gwreiddiau' ein ffydd yn well. Ni all coeden afalau heb wreiddiau ddwyn ffrwyth. Ac er i'r goeden gael ei thocio a'i thorri ,os bydd ei gwreiddiau'n gadarn fe fydd yn tyfu'n ôl.

Felly, beth am ymuno efo ni? Does dim y fath beth â chwestiwn ffôl, neu gyfraniad gwirion! Fydd yna ddim pwysau ar neb i siarad os ydynt yn swil. Yr ydym yn awyddus i anrhydeddu'r 'chwilio' sydd yn ein calonnau bob un a hynny er mwyn canfod y bywyd sydd yn Iesu Grist.

Byddwn yn ailgychwyn wedi'r Nadolig ar 11eg o Ionawr.
Ac fe fyddem oll yn falch o'ch cwmni.

*Watcyn James*

Dymunwn bob bendith i holl ddarllenwyr
'Gair o'r Garn' yn 2018.





Y Gweinidog yn bedyddio
Celt Meredydd,
mab bach
Steffan ac Elen Roberts
yng ngwasanaeth
diolchgarwch y Garn

## Diolchgarwch a Bedydd yng Nghapel y Garn

Roedd gwasanaeth bore Sul, 15 Hydref 2017, yn oedfa arbennig o ddiolch mewn sawl ffordd. I ddechrau cyflwynodd plant yr ysgol Sul eu diolch arbennig nhw am roddion y cynhaeaf – ar ffurf darlleniadau, gweddi a chân.

Yna cyflwynodd y Gweinidog, y Parch Ddr Watcyn James, gopi o *beibl.net: 365 o storïau o'r Beibl*, yn rhodd i Osian, Tŷ Capel, a dymuno'n dda iddo a'i rieni, James a Kate January McCann, sydd wedi symud i'w cartref newydd yn Nerwen-las.

Yn dilyn hynny, cyflwynodd Steffan ac Elen Roberts, Mynydd Gorddu, eu mab bychan, Celt Meredydd, i'w fedyddio gan y Gweinidog. Roedd yn braf cael cwmni Lois a Math, chwaer a brawd Celt, yn y gwasanaeth, yn ogystal ag aelodau eraill o'r teulu, ac rydym yn falch iawn o dderbyn Celt yn rhan o deulu'r eglwys yn y Garn.



Y Gweinidog yn cyflwyno *beibl.net: 365 o storïau o'r Beibl*, yn rhodd i Osian, ac yn dymuno'n dda i deulu'r Tŷ Capel yn eu cartref newydd

## Arbrofi yng Nghapel y Garn

Mae'n debyg ein bod oll yn gwybod am y dywediad enwog: 'Gwallgofrwydd yw gwneud yr un peth drosodd a throsodd gan ddisgwyl am ganlyniadau gwahanol i'r hyn a gafwyd mil o weithiau cyn hynny.'

Mynegwyd pryder gan y swyddogion, hyd yn oed cyn i mi ddod i'r Garn, fod cynulleidfaoedd yr oedfa hwyrol yn gwanhau a bod ansicrwydd am y ffordd orau i ddefnyddio'r amser hwn.

Roedd nifer o ddewisiadau amlwg.

Yn gyntaf, parhau gyda'r arfer o gynnal oedfa am 5 yr hwyr gyhyd ag yr oedd hynny'n bosib. Yr ail oedd ceisio dychmygu ffordd fwy rhydd o ddefnyddio'r amser. Ond gan ein bod yn dibynnu cymaint ar bregethwyr o'r tu allan i'r ofalaeth, tybiwyd nad oedd yn rhwydd i bobl o'r tu allan ffitio i mewn i ryw arbrawf newydd. Trydydd opsiwn fyddai dileu'r cyfarfod hwyrol yn gyfan gwbl.

Nid oedd yn eglur pa ffordd y dylem ei throedio wrth wynebu'r dyfodol.

Er mwyn sicrhau cysondeb a chyfle i adeiladu a sicrhau perthynas agosach gyda'r plant a chynulleidfa fwy niferus yr oedfa foreol, cytunwyd i ddefnyddio'r nifer o oedfaon a dderbyniwn gan y gweinidog ar draws nifer o oedfaon boreol yn ystod y flwyddyn. Byddwn yn derbyn yr un faint o oedfaon ag o'r blaen. Credwn fod hyn yn cynnig mwy o ymwneud gyda thrwch y gynulleidfa na 'thrydydd Sul y gweinidog' a arferid gennym.

Nid dileu'r oedfa hwyrol yn barhaol yw diben hyn. Yn wir, fel rhan o'n harbrawf awgrymwn ein bod yn parhau i gynnal yr oedfa hwyrol yn rheolaidd er nad bob Sul. Byddai hynny'n anrhydeddu'r trefniant a wnaed gan bregethwyr sy'n teithio o bellter i ddod atom.

Wrth i drefniadaeth o fewn yr Ofalaeth ddatblygu, gobeithiwn fedru dychwelyd i ystyried sut mae defnyddio amser yr oedfa hwyrol i ddibenion arbrofol a chreadigol. Beth yn union y mae hyn yn ei olygu? Ni allwn ddweud ar hyn o bryd. Ond dechrau taith yw'r cam cyntaf.

Bydd y trefniant newydd yn cychwyn ym mis Ebrill.

Os oes unrhyw gwestiynau gennych gofynnwch i'r swyddogion am ragor o wybodaeth. Bydd cyfle yn ystod Ionawr i ni gymryd llais yr eglwys ar yr arbrawf.

*Watcyn James* (ar ran y Blaenoriaid)

## Ionawr

*Blaenor y Mis: Vernon Jones*

*I gyfarch wrth y drysau: Dewi G Hughes / Eddie Jenkins*

**7** Oedfa’r bore am 10 o’r gloch dan arweiniad y Parch Elwyn Pryse

10 Cwrdd Chwiorydd y Garn am 2.30 o’r gloch
‘Dyfed Lewis – canwr o oes Fictoria’ – Dr Rhidian Griffiths

**14** Oedfaon am 10 a 5 o’r gloch dan arweiniad Dr Rhidian Griffiths

20 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o’r gloch
‘Digon o ryfeddodd!’ Dewi Hughes

**21** Oedfaon am 10 a 5 o’r gloch dan arweiniad y Gweinidog
Oedfa gymun yn y bore

26 Pwyllgor Swyddogion y Garn am 10 o’r gloch

**28** Oedfa’r Ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog
Capel y Garn am 10 o’r gloch

30 Pwyllgor Eglwys y Garn am 10 o’r gloch

### Beiblau

Yn ddiwedddar, prynwyd ugain o Feiblau ar gyfer yr eglwys, ac mae croeso i bawb eu defnyddio yn y gwasanaethau, mewn grŵp trafod, ac yn y blaen.

### Y Rhestr Flodau

Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd flodau i harddu’r capel yn ystod 2017. Os hoffech chi gyfrannu blodau ar gyfer Suliau 2018, cysylltwch â Shân Hayward neu Kathleen Lewis, neu rhowch eich enw ar y rhestr yn y cyntedd, os gwelwch yn dda. Gwerthfawrogir pob cyfraniad.

# Chwefror

*Blaenor y Mis: Eddie Jenkins*

*I gyfarch wrth y drysau: Vernon Jones / Alan Wynne Jones*

**4** Oedfa'r bore am 10 o'r gloch yng Nghapel Noddfa

7 Cwrdd Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch
Orig yng nghwmni'r Athro Gruffydd Aled Williams

**11** Oedfaon am 10 a 5 o'r gloch
dan arweiniad y Parch Roger Ellis Humphreys

16 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
Noson yng nghwmni teulu Elgar

**18** Oedfaon am 10 a 5 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog
oedfa gymun yn y bore

**25** Oedfa am 10 o'r gloch dan arweiniad Mr J. Emrys Jones

**Gweddi Gŵyl Ddewi**



Arglwydd genhedloedd y byd, diolchwn am ein gwlad, ein hetifeddiaeth, a'n dyfodol gobeithiol ynot ti.

Gweddïwn dros ein gwlad, dros ei chymunedau, ei phobl a'i phlant. Gweddïwn dros ysgolion ein gwlad, ein hysbytai, a'n prifysgolion. Gweddïwn dros ein Cynulliad Cenedlaethol, dros Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol. Gweddïwn y bydd y Cynulliad o dan dy fendith arbennig Di ac y bydd yn fendith yn dy law i'r genedl y mae'n ei gwasanaethu.

Gweddïwn dros galon, enaid ac ysbryd ein pobl. Llanwa'n calonnau â'th gariad, ein henaid â'th rym, ein hysbryd â gweledigaeth ohonot ti – a'r cyfan fel y medrwn wasanaethu'r byd dolurus hwn.

Arglwydd, gogonedda dy Hun yn dy Eglwys a thrwy dy bobl. Gweddïwn hyn yn Iesu Grist, dy Fab, Amen.

## Mawrth

*Blaenor y Mis: Marian Beech Hughes*

*I gyfarch wrth y drysau: D Elystan Morgan / Erddyn James*



2 Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd
Gwasanaeth prynhawn
yn Eglwys Llanfihangel Genau'r Glyn
Thema: 'Mae Cread Duw yn Dda Iawn i Gyd!'

**4** Oedfa'r bore am 10 o'r gloch
dan arweiniad Mr Lyndon Lloyd

7 Cwrdd Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch
'Crefftau' dan ofal Joy Jones

**11** Oedfaon am 10 a 5 o'r gloch
dan arweiniad Dr Rhidian Griffiths

16 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7 o'r gloch
Noson gyda Glan ym Methlehem, Llandre

**18** Oedfaon am 10 a 5 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog
oedfa gymun yn y bore; oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre

**25** *Sul y Blodau*
Oedfa'r bore am 10 o'r gloch dan arweiniad Miss Beti Griffiths
Oedfa'r hwyr am 5 dan arweiniad y Gweinidog

30 Myfyrdod Gwener y Groglith dan arweiniad y Gweinidog
Thema: 'I ddweud yn iawn amdano'
Capel Seion am 10 o'r gloch

## Cymdeithas Lenyddol y Garn

Cafwyd dechrau llwyddiannus iawn i dymor y Gymdeithas eleni, gyda dau gyfarfod diddorol.

Yng nghyfarfod mis Hydref, rhannodd Gweneira, Gwynant, Marian a Vernon eu 'Trysorau Personol'. Roedd y rhain amrywio o ddysglau i lwy, print o bont Siarl ym Mhrâg a chyfrol o farddoniaeth Trebor Aled. Profiad difyr oedd clywed am eu harwyddocâd arbennig i'w perchnogion.




Gareth Owen, yr artist amryddawn o Lanuwchllyn sydd bellach wedi ymgartrefu yn Aberystwyth, oedd y gŵr gwadd yng nghyfarfod mis Tachwedd. Drwy gyfeirio at ambell ddelwedd yn ei gyfrol *Rhyw LUN o Hunangofiant*, rhoddodd gip inni ar ei yrfa amrywiol fel arlunydd a chynllunydd setiau, yn ogystal â'i ran yn ymgyrchoedd yr iaith o'r chwedegau ymlaen a'i ddawn fel englynwr. Noson arbennig iawn!

### *Trefnu Cyfarfodydd yn y Garn*

Os byddwch am drefnu i ddefnyddio'r capel neu'r festri, cysylltwch ag Ysgrifennydd y Garn, Alan Wynne Jones: ffôn 01970 828163; ebost: alan.jones212@btinternet.com. Diolch am eich cydweithrediad.

## *Newyddion Seion*

### Corwynt Cariad

Bore Sul, 12 Tachwedd, cynhaliwyd oedfa arbennig yn Seion i ddathlu Corwynt Cariad, sef apêl pum mlynedd Eglwys Bresbyteraidd Cymru ar y cyd gyda Chymorth Cristnogol i godi arian at Ynysoedd y Pilipinas. Ddechrau'r haf lansiwyd yr apêl yn Seion trwy ddosbarthu i bob aelod fagiau bach a'u gwahodd i roi punt yr wythnos o hynny tan y diwrnod hwn ynddynt, ac fe'u casglwyd ynghyd yn yr oedfa gan fendithio'r cyfraniadau. Hefyd bu dosbarth y plant hŷn yn yr ysgol Sul yn paratoi deunydd ar gyfer arddangosfa ac yn cyflwyno eu gwaith yn yr oedfa. Gwahoddwyd Anna Jane Evans o Gaernarfon, sy'n weithiwr Cymorth Cristnogol yn y Gogledd, i annerch a sôn am ei phrofiad yn ymweld â'r Pilipinas rai misoedd yn ôl. Cafwyd ganddi ddarlun byw o'i hymweliad a chyfle i ni ddod i adnabod rhan o'r ynys, ei phobl a gwaith yr elusennau yno. Yn dilyn cafwyd coffi a stondinau, a diolch i Eirlys a Roland Williams am eu nawdd ac i bawb a gyfrannodd mor hael.



Anna Jane Evans, Swyn, Eos, a Celt o flaen yr arddangosfa

## Ysgol Sul Unedig Bow Street

Aeth criw o blant a'u rhieni o ysgol Sul Bow Street i grochendy Ynys-las (Blue Island Ceramics) ddiwedd Hydref am sesiwn o greu a phaentio. Cafwyd amser bendigedig yn dewis darnau o grochenwaith o'r cynnyrch helaeth oedd ar gael yno, ac roedd yn anodd dewis y lliwiau o baent, o'r holl rai oedd ar gael!

Diolch i Zana, y perchennog, am ei help a'i hamynedd. Aeth dwy awr ar wib, ac ar y diwedd roedd pawb wedi creu darnau hyfryd – tylluan, cadw-mi-gei, draig, ci, plât a phengwin arno, sawl coeden Nadolig, ac ambell beth arall lliwgar. Daeth yr ymweliad i ben yn Oriel Tir a Môr, y Borth, lle cafwyd llond plât o ginio blasus.

Cofiwch fod croeso i blant o bob oed ymuno â'r ysgol Sul – dewch i festri Capel y Garn am 10 ar fore Sul am sesiwn o chwarae, gwneud crefftau, adrodd stori – a diod a bisgedi.



Hwyl yn gwneud crefftau Nadoligaidd ym Methlehem,
gyda Rhian, Besi a Lleucu

## Bore Coffi Cymdeithas Chwiorydd y Garn



Bore Sadwrn olaf mis Tachwedd: amser agor dathliadau Nadolig Capel y Garn gyda Chlonc a Chwpanaid amheuthun yn y Festri. Y ddefod agoriadol ers rhai blynyddoedd bellach yw torri a rhannu cacen, a hynny'n symbol o'r rhannu sy'n gymaint rhan o ysbryd y Nadolig. Y gweinidog, y Parch Watcyn James, gyflawnodd y weithred. Wrth ei gyflwyno diolchodd Llinos Dafis, Cadeirydd y Chwiorydd yn gynnes i Gartref Tregerddan am roi'r gacen at yr achlysur unwaith eto. Yn ogystal â phrynu o'r stondinau llwythog o gynnyrch cartref o bob math a mwynhau cyfeillach lawen wrth y byrddau cafodd llawer amser i ddyfalu atebion i'r cwis



lluniau oedd wedi ei baratoi gan Iestyn Hughes, sydd hefyd wedi tyfu yn arfer blynyddol. Roedd Merched y Gegin a Bwrdd Gruffydd Aled yn gydradd fuddugol eleni. Ar ddiwedd yr holl brysurdeb a gwneud y symiau gwelwyd bod dros £500 wedi dod i'r coffrau, i'w rannu'n gyfartal rhwng Beiciau Gwaed Cymru a Chapel y Garn.



Bu casgliad sylweddol o nwyddau o gartref y diweddar Mr John Rees, Talar Deg, ar werth yn ystod y bore er elw i Gapel y Garn. Diolchwyd yn gynnes i deulu Mr Rees gan Alan Wynne Jones, Ysgrifennydd yr Eglwys.

## *Pen-llwyn*

Dyma blant yr ysgol Sul yn paratoi gogyfer â'r gwasanaeth Nadolig ar 17 Rhagfyr. Caiff y ddrama ei pherfformio eleni ar fydr ac odl, ond ein gobaith yw y bydd neges yr ŵyl yn cael ei harddangos ac y byddwn yn pwysleisio gwir ystyr y Nadolig fel arfer.




Diolch i'r plant am eu ffyddlondeb ar hyd y flwyddyn, heb anghofio'u rhieni, wrth gwrs. Ein moto a'n gweddi ni yma, fel rydym wedi'i fynegi cyn hyn yw: "hyffordda blentyn ym mhen ei ffordd a phan heneiddio nid ymedy â hi". Os hoffai unrhyw blentyn o'r ardal fynychu'r ysgol Sul byddwn yn eich croesawu â breichiau agored. Rydym yn cyfarfod fel arfer am 2 y prynhawn ond weithiau bydd yn rhaid cwrdd am 10 y bore pan mae gwasanaeth gennym am 2 o'r gloch.

## *Codi Arian ger Nantyrarian*



Aelodau a phlant ysgol Sul Pen-llwyn ynghyd â'u rhieni a'u gweinidog, y Parch Ddr Watcyn James, ar daith gerdded noddedig o amgylch y llyn yn Nantyrarian, Ponterwyd. Diben y daith oedd codi arian at Apêl Corwynt Cariad a fydd yn galluogi pobl y Pilipinau i brofi gwell byd, a hefyd gwneud i ninnau werthfawrogi'n fwy yr hyn sydd yn ein meddiant ni. Cafwyd paned wrth gymdeithasu cyn troi am adre ar ôl bore gwerth chweil. Os oes rhai aelodau na chawsant siawns i gyfrannu at yr apêl yma ac yn teimlo ar eu calon eu bod eisiau ceisio gwneud gwahaniaeth i anffodusion y Pilipinau, gallwch anfon eich cyfraniad at Miss Delyth Davies, Maencrannog. Diolch i chwi ymlaen llaw.

*Heulwen Lewis*

CORWYNT
CARIAD

## Gwaddod Caethwasiaeth

Mae CWM (*Council for World Mission*) wedi datblygu prosiect i archwilio sut mae masnach y caethweision o Affrica yn dal i ddylanwadu ar fywydau pobl heddiw. Bu cymunedau croendywyll y Caribî, y Deyrnas Gyfunol, a'r Unol Daleithiau yn galw ers tro am i rywun fynd i'r afael ag archwilio effeithiau hirdymor y fasnach anynad honno.

Tyfu allan o Gymdeithas Genhadol Llundain, yr LMS gynt, wnaeth CWM, yn y 1970au. Lledaenu'r efengyl yn yr Ymerodraeth Brydeinig oedd bwriad yr LMS pan gafodd ei sefydlu ddiwedd y 18 ganrif, ychydig flynyddoedd cyn i'r galw am ddadgyfreithloni masnach y caethweision ddod i'w anterth gyda Deddf Diddymu Caethwasiaeth 1807. Gan fod y Gymdeithas felly wedi dechrau ei bywyd pan oedd masnach caethweision ar draws yr Iwerydd yn ei bri, a'i bod yn ystyried bod dadgoloneiddio a lliniaru canlyniadau coloneiddio yn rhan o'i chylch gorchwyl, gweddus oedd iddi ymgymryd â'r prosiect hwn.

Mae'r rhaglen yn cynnwys pedwar gwrandawiad mewn pedair gwlad – y Deyrnas Gyfunol, Ghana, Jamaica a'r Unol Daleithiau – gyda'r bwriad o alluogi pobl i leisio eu doluriau a'u dicter, a thrwy hynny ddangos i'r genhadaeth ôl-drefedigaethol pa faterion mae angen mynd i'r afael â nhw. Bu'r gwrandawiad cyntaf yn Llundain ganol mis Tachwedd, a'r tri arall i ddilyn yn fuan.

Bydd aelodau o'r cymunedau lleol yn rhoi tystiolaeth ymhob gwrandawiad i geisio rhoi ar ddeall i'r arbenigwyr beth yw realiti parhaol caethwasiaeth, y gwersi a ddysgwyd ac sydd i'w dysgu, a sut y gellir cydweithio i ddileu a chywiro'r annhegwch a'r anghyfiawnder yn ein cymdeithas sy'n ganlyniad i'r diwreiddio enbyd a ddigwyddodd drwy fasnach y caethweision.

Y bwriad yn y pen draw yw datblygu cynlluniau ymarferol i godi ymwybyddiaeth ymhlith pawb, o bob hil, a datblygu camau ymarferol tuag at gyd-ddealltwriaeth a chydweithrediad.

Bydd grŵp craidd yn mynychu pob gwrandawiad i rannu'r hyn a glywir gydag aelodau CWM yn ehangach. Edrychwn ymlaen at glywed rhagor ganddyn nhw.

*Llinos Dafis*

## Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Ar gychwyn tymor newydd o Gymdeithas y Chwiorydd brynhawn Mawrth, 12 Medi, croesawyd Naomi Jones sy'n gweithio i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i roi sgwrs ar 'Hedd Wyn a'r Ysgwrn'. Ers i Awdurdod y Parc brynu fferm yr Ysgwrn yn 2012 cafodd yr adeiladau eu hadnewyddu, ac agorwyd y ganolfan ar ei newydd wedd yn gynharach eleni. Mae'r ganolfan yn fodd i gadw'r drws yn agored i ymwelwyr ac i gadw'r cof am Hedd Wyn yn fyw. Diolchwyd i Naomi am sgwrs ddifyr iawn, ac ar y diwedd mwynhawyd te a bisgedi wedi eu paratoi gan Myfanwy Rowlands a Mai Leeding.

Prynhawn Mawrth, 10 Hydref, croesawyd Robat Gruffudd, Tal-y-bont, i'r cyfarfod a bu'n sôn sut yr aeth ati i sefydlu gwasg y Lolfa yn Nhal-y-bont hanner can mlynedd yn ôl. Drwy gyfrwng sleidiau dangoswyd enghreifftiau o'r cyhoeddiadau a gyhoeddwyd gan y wasg yn ystod yr hanner canrif. Maent yn cyhoeddi pob math o lyfrau a llyfrynnau yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn ogystal â thaflenni, posteri, cylchgronau, catalogau, papurau bro a llawer mwy, gan ennill Llyfr y Flwyddyn dair gwaith yn olynol. Mae'r cwmni wedi ehangu dros y blynyddoedd ac erbyn hyn mae'n cyflogi ugain o staff yn llawn amser. Diolchwyd i Robat am adrodd hanes diddorol nifer o'r cyhoeddiadau sy'n nodi llwyddiant y wasg dros y blynyddoedd. Mwynhawyd te a sgon ar y diwedd wedi eu paratoi gan Ann Humphreys a Gwen Williams.

Croesawyd y Parchedig Ddr Watcyn James i'r cyfarfod brynhawn Mawrth, 14 Tachwedd. Teitl ei sgwrs oedd 'O'r Berriw i'r Bryniau', a chafwyd hanes ei daith ef a'i wraig, Lowri, i Cherrapunji yn yr India y llynedd. Pwrpas y daith oedd mynychu dathliadau 175 mlynedd ers dechrau'r genhadaeth yn yr ardal honno. Dechreuodd cenhadon o Gymru deithio i Fryniau Casia yn 1841 ac un ohonynt oedd Thomas Jones o sir Drefaldwyn. Bu ei ddylanwad ef yn fawr ar y bobl drwy eu troi yn gymdeithas lythrennog, ac o ganlyniad i hynny daeth y cyfle i wella bywyd pobl y bryniau. Mae dylanwad Cristnogaeth yn parhau yn yr ardal hyd heddiw. Tra oedd yno, pregethodd Dr James i filoedd o bobl, ac roedd yn wefreiddiol gweld cymaint o gynulleidfa a oedd wedi teithio yno o bell ac agos ar gyfer y dathliad. Ar ôl talu'r diolchiadau ar y diwedd, mwynhawyd te a bisgedi wedi eu paratoi gan Non Griffiths ac Eirlys Jones.

*Carys Briddon*



## Cofio a Myfyrio – dangosiad o'r ffilm *Cofia'n Gwlad* yn Libanus

Nos Iau, Tachwedd 9fed, ar drothwy cofio'r Cadoediad, roedd pob sedd yn sinema bwtîc foethus Libanus 1877, y Borth, wedi ei llenwi ar gyfer dangosiad o *Cofia'n Gwlad*, sef ffilm o'r ddrama a berfformiwyd mewn gwahanol gapeli yn ystod arddangosfa Cofio a Myfyrio mis Tachwedd 2014. Drwy'r ffilm cawsom ein hatgoffa o'r tryblith o emosiynau creulon hydreiddiodd bob cwr o'r gymdeithas yn ystod y Rhyfel Mawr a'r anhrefn personol a'i dilynodd. Cawsom hefyd glywed a gweld un a fu yno, sef Caledfryn Evans, Tal-y-bont, yn rhannu'r profiad erchyll. Rhwng ansawdd rhagorol y llun ar y sgrin fawr, y sain glân oedd yn hydreiddio'r neuadd, a'r seddi hynod gyffyrddus, bu'n brofiad amheuthun, ac yn enwedig felly o gofio'r gyfeillach dros de a choffi a chacennau ar y dechrau!

Mae *Cofia'n Gwlad* bellach i'w gweld ar YouTube. Ewch i wefan YouTube a chwilio am 'Cofia'n Gwlad'.

***Swyddogion yr Ofalaeth***

*Cadeirydd*: Robert Williams, Rehoboth

*Is-gadeirydd*: Janet Jones, Nasareth

*Ysgrifennydd*: Gruffydd Aled Williams, Bronafon, Dolau, Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AE

(ffôn: 01970 820664; ebost: gawilliams1@btinternet.com)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **11 Mawrth:**

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St
☎01970 828026
dewinerys@gmail.com

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
☎01970 828662
marian_hughes@btinternet.com